OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 886

# The Education (Student Information) (Wales) Regulations 2017

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Hydref 2017 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cymhwyster penodedig" ("*specified qualification*") yw cymhwyster perthnasol ac, ar y dyddiad pan fo'r person wedi ei gofnodi ar gyfer y cymhwyster hwnnw—

(a) roedd wedi ei gymeradwyo o dan adran 99 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**1**) at ddibenion adran 96 o'r Ddeddf honno;

(b) mae wedi ei gymeradwyo o dan Ran 4 o Ddeddf 2015;

(c) mae wedi ei ddynodi o dan adran 29 o Ddeddf 2015; neu

(d) mae'n deillio o gwrs addysg neu hyfforddiant sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 34(8) o Ddeddf 2015;

ystyr "darparwr dysgu" ("*learning provider*") yw person sy'n darparu addysg neu hyfforddiant a ddatblygwyd i ddiwallu anghenion person sy'n 16 oed ac yn hŷn y ceir cyllid amdani neu amdano gan Weinidogion Cymru;

ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009;

ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Cymwysterau Cymru 2015(**2**).

### Amgylchiadau rhagnodedig

**3.** Mae rheoliad 5 yn rhagnodi'r amgylchiadau at ddibenion adran 253A(2) o Ddeddf 2009 pan gaiff Gweinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr.

**4.** Mae rheoliadau 6 a 7 yn rhagnodi'r amgylchiadau at ddibenion adran 253A(2) o Ddeddf 2009 pan gaiff person ac eithrio Gweinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr.

**5.** Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3 yw bod yr wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig.

**6.** Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4 pan fo'r wybodaeth i gael ei darparu i Weinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth yw—

(a) bod yr wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig; a

(**1**) 2000 p. 21; diddymwyd adran 99 gan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, adran 58, Atodlen 4, paragraff 3(1), (5).
(**2**) 2015 dccc 5.

(b) bod Gweinidogion Cymru neu'r coladydd gwybodaeth wedi gofyn am yr wybodaeth honno.

**7.** Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4 pan fo'r wybodaeth i gael ei darparu i berson rhagnodedig neu gategori rhagnodedig o berson yw—

(a) bod yr wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig; a

(b) o ran yr unigolyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef—

(i) ei fod, neu yr oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â'r person sy'n darparu'r wybodaeth; neu

(ii) ei fod, neu oedd ei fod wedi, ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant gyda'r person sy'n darparu'r wybodaeth.

**Gwybodaeth ragnodedig am fyfyrwyr**

**8.** Mae'r disgrifiad o wybodaeth am fyfyrwyr a bennir yn Atodlen 1 wedi ei ragnodi at ddibenion adran 253A(2) o Ddeddf 2009.

**Personau rhagnodedig a chategorïau rhagnodedig o bersonau**

**9.**—(1) Mae'r personau yn Rhan 1 o Atodlen 2 wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 253A(2)(c) o Ddeddf 2009.

(2) Mae'r categorïau o bersonau yn Rhan 2 o Atodlen 2 wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 253A(2)(d) o Ddeddf 2009.

*Alun Davies*
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes,
o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros
Addysg, un o Weinidogion Cymru.

7 Medi 2017